# POLISI A CHYNLLUNIO IEITHYDDOL

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

## MA / Diploma Ôl-radd / Tystysgrif Ôl-radd

**Llawn-amser: 1 flwyddyn**
**Rhan-amser: hyd at 48 mis**



**www.bangor.ac.uk/gc**





# PAM ASTUDIO POLISI A CHYNLLUNIO IEITHYDDOL?

Mae nifer y cymunedau a'r gweithleoedd dwyieithog ac amlieithog ar gynnydd, a chynllunio ieithyddol yn faes o bwysigrwydd cynyddol. O ganlyniad, ceir mwy o alw am unigolion sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i lunio strategaethau a systemau effeithiol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ieithyddol.

Wrth i ystyriaethau ieithyddol ddod yn flaenoriaeth ar gyfer llawer o feysydd – yn cynnwys datblygu, cynllunio, addysg, iechyd, technoleg gwybodaeth a marchnata – mae angen i staff mewn amrywiaeth eang o feysydd ddatblygu dealltwriaeth a sgiliau ym maes cynllunio ieithyddol. Ar ben hynny, mae cyhoeddi Mesur y Gymraeg (Cymru) yn 2011 wedi newid y fframwaith cyfreithiol ynghylch defnyddio'r Gymraeg ac felly'n golygu galw cynyddol fyth am weithlu dwyieithog, amryddawn.

Mae'r MA mewn Polisi a Chynllunio Ieithyddol yn archwilio, mewn modd arloesol a chynhwysfawr, faes sy'n dod yn fwyfwy pwysig yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae'r rhaglen yn elwa o arbenigedd amrywiol ysgolion Prifysgol Bangor ym meysydd Gwyddorau Cymdeithas, Ieithyddiaeth, y Gyfraith, Busnes, y Gymraeg, a Gwyddorau Iechyd, a fydd yn rhoi i fyfyrwyr ddealltwriaeth o'r cwestiynau theoretig yng nghyswllt Cynllunio Iaith, yn ogystal â'r cwestiynau cymhwysol hollbwysig.

## AMCANION Y RHAGLEN

Mae'r rhaglen yn anelu at ymdrin ag anghenion unigolion, cymunedau a sefydliadau am ddealltwriaeth fwy soffistigedig o gynllunio iaith, yn cynnwys gwybodaeth theoretig. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i roi'r wybodaeth angenrheidiol i fyfyrwyr, fel y gallant weithredu systemau llwyddiannus o gynllunio iaith yn y gweithle, y gymuned, y system addysg a'r teulu.

Cynigir y rhaglen ar y lefelau canlynol:

- MA (180 credyd)
- Diploma Ôl-radd (120 credyd)
- Tystysgrif Ôl-radd (60 credyd)

Mae yna bosibilrwydd o ymadael ar ôl pob lefel.

Ar lefel Meistr a Diploma, bydd disgwyl hefyd i fyfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth gadarn o ddulliau ymchwil. Trwy'r traethawd hir, bydd y rhaglen Meistr yn rhoi cyfle i fyfyrwyr archwilio ymhellach agwedd benodol ar gynllunio iaith, ac yn gam tuag at astudiaethau ar lefel ddoethurol os bydd myfyrwyr yn dymuno.

## BWRSARIAETHAU

Mae'r Ysgol yn cynnig bwrsariaethau amrywiol tuag at ffioedd dysgu'r MA Polisi a Chynllunio Ieithyddol. Yn ogystal, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig bwrsariaethau amrywiol i fyfyrwyr sy'n astudio llawn amser trwy gyfrwng y Gymraeg, cyn belled a bo hynny'n bosib. Dyfernir y bwrsariaethau fel gostyngiad ar ffioedd y cwrs.

## TAITH I WLAD Y BASG



Cafodd myfyrwyr ar y cwrs gradd MA Polisi a Chynllunio Ieithyddol olwg unigryw ar bwnc eu hastudiaethau yn sgil taith addysgol i Wlad y Basg yng Ngogledd Sbaen.

Ar y cyd â Dr Rhian Hodges, Cyfarwyddwr y Cwrs, bu'r myfyrwyr yn ymweld â nifer o sefydliadau allweddol sy'n gweithio i hyrwyddo a meithrin iaith y Basg. Amcan y daith oedd cyflwyno myfyrwyr i sefydliadau sy'n ymgyrchu dros hawliau ieithyddol siaradwyr iaith y Basg, a chymharu a gwrthgyferbynnu hyn â sefydliadau ac ymgyrchoedd cyffelyb yng Nghymru.








# MODIWLAU

Mae'r cyfuniad o fodiwlau o Ysgolion ar draws y Brifysgol yn manteisio i'r eithaf ar allu Bangor i archwilio cynllunio iaith a materion cysylltiedig o safbwyntiau theoretig a chymhwysol.

## MODIWLAU CRAIDD (Diploma a Meistr)

*40 credyd o:*

### Y Broses Ymchwil* — 40 credyd

Bydd y modiwl hwn yn rhoi hyfforddiant ar lefel ôl-radd ym mhrif amrywiaethau ymchwil feintiol ac ansoddol yn y gwyddorau cymdeithas. Bydd egwyddorion cynllunio gwaith ymchwil a materion cysylltiedig â chasglu a dadansoddi data yn cael eu hastudio.

### Dulliau Ymchwil ym Maes Addysg* — 30 credyd

Bydd y modiwl hwn yn cyflwyno myfyrwyr i ymchwil feintiol ac ansoddol ym maes addysg ac yn paratoi myfyrwyr tuag at gyflawni ymchwil ar gyfer y traethawd hir.

### Dulliau Meintiol — 10 credyd

Nod y modiwl hwn yw i gynnig arweiniad llawn i fyfyrwyr ar ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol bwrpasol (SPSS) i gyflawni gwaith ymchwil meintiol. Erbyn diwedd y modiwl, bydd disgwyl i fyfyrwyr gallu cyflawni a dadansoddi gwaith ymchwil ar lefel priodol gan ddefnyddio'r rhaglen hon.

*Ynghyd â:*

### Cynllunio Ieithyddol — 20 credyd

Bydd y modiwl hwn yn gosod cynllunio ieithyddol mewn cyd-destun rhyngwladol trwy astudio esiamplau amrywiol o gynllunio ieithyddol mewn gwahanol wledydd. Ceir astudiaeth drylwyr o faes cynllunio ieithyddol yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar ddatblygiad cymdeithasol hanesyddol yr iaith Gymraeg, y system addysg, a datblygiadau deddfwriaethol ynghylch yr iaith.

### Traethawd Hir (MA yn unig) — 60 credyd

20,000 o eiriau yw hyd y traethawd hir. Bydd myfyrwyr yn derbyn cefnogaeth gan staff addysgu trwy gydol y broses, o'r cam cynllunio i'r cam olaf o ysgrifennu'r fersiwn terfynol. Rhoddir goruchwyliwr i bob myfyriwr a fydd yn arolygu ac yn cynnig cyngor ac arweiniad ar gynllunio ymchwil, methodoleg, canlyniadau, drafftio a chyflwyniad y traethawd hir terfynol.

## MODIWLAU DEWISIOL

### Agweddau ar Ddwyieithrwydd — 20 credyd

Bydd y modiwl hwn yn ymchwilio i agweddau theoretig ar ddwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn erbyn cefndir ystod o sefyllfaoedd dwyieithog ac amlieithog gan gynnwys y cyd-destun cartref yng Nghymru, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

### Dysgu yn y Gweithle* — 20 credyd

Bydd y modiwl hwn yn annog datblygiad personol a phroffesiynol trwy ddefnyddio problemau yn y gweithle i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau sy'n briodol i gynllunio ieithyddol yn y gweithle.

### Hanes y Gymraeg — 20 credyd

Bydd y modiwl hwn yn ymchwilio i hanes yr iaith Gymraeg, ac mae'n addas i fyfyrwyr sydd heb ddealltwriaeth flaenorol o'r pwnc. Bydd myfyrwyr yn astudio safle'r iaith Gymraeg mewn perthynas ag ieithoedd Celtaidd eraill; yn cael arolwg hanesyddol o'r iaith Gymraeg trwy ystyried y ffactorau diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd sydd wedi dylanwadu ar ei hanes; ac yn ystyried y berthynas rhwng Cymraeg ysgrifenedig a Chymraeg llafar.

### Hawliau Ieithyddol — 20 credyd

Bydd y modiwl hwn yn archwilio maes hawliau ieithyddol ac yn ystyried y ddadl ynghylch hawliau ieithyddol mewn perthynas â'r fframwaith polisi hanesyddol a'r cyd-destun ehangach o hawliau lleiafrifol.

### Hawliau Dynol ac Amrywiaeth Gymdeithasol* — 20 credyd

Bydd y modiwl hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr archwilio materion a dadlau allweddol ynghylch y galwadau cynyddol gan boblogaethau lleiafrifol a brodorol am hawliau a chydnabyddiaeth ieithyddol, diriogaethol a lleiafrifol. Bydd dadlau a pholisïau sy'n ymwneud â rheolaeth amrywiaeth diwylliannol ac ethnig gan y wladwriaeth hefyd yn cael eu hystyried.

### Rheolaeth yn y Sector Cyhoeddus* — 20 credyd

Bydd y modiwl hwn yn astudio'r maes cymhleth a heriol hwn, lle bu newidiadau mawr ym mlynyddoedd diweddar. Mae rheolaeth yn y sector cyhoeddus wedi bod ar ben blaen datblygiad ymarferiadau rheolaeth arloesol ar draws ystod o gyd-destunau gwleidyddol a chymdeithasol.

### Y Gyfraith a Datganoli yng Nghymru ac Ewrop* — 20 credyd

Yn ystod y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn astudio'r darpariaethau cyfreithiol sy'n berthnasol â llywodraeth ddeddfwriaethol, weinyddol a barnwrol ddatganoledig yng Nghymru, Prydain ac Ewrop, gan gyfeirio'n benodol at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Materion Cyfoes ym Maes Dwyieithrwydd* — 20 credyd

Bydd y modiwl hwn yn cyflwyno dwyieithrwydd mewn plant ac oedolion. Bydd yn archwilio'r dadlau ynghylch modelau caffael dwyieithrwydd a defnydd iaith mewn oedolion, ac yn rhoi cyfle i fyfyrwyr cynnal projectau ymchwil naill ai fel unigolion neu fel rhan o dîm.

*Modiwl dwyieithog



## RHAGOLYGON GYRFAOEDD

Mae'r rhaglen yn paratoi myfyrwyr i weithio mewn amrywiaeth o swyddi – yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector – yn cynnwys swyddogion iaith, datblygu polisi, rheolwyr a marchnata. Bydd myfyrwyr hefyd yn cael eu paratoi ar gyfer astudiaeth ar lefel ddoethurol ym maes eang cynllunio iaith.

Yn ogystal, mae'r rhaglen yn addas iawn i ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n barod ym maes cynllunio ieithyddol ond sydd am gymhwyso fframwaith theoretig a chyd-destun rhyngwladol i'w gwaith dyddiol.

"Roedd y gefnogaeth a gefais gan y staff yn anhygoel ac mi wnaeth y gefnogaeth hon fy ngalluogi i gwblhau'r cwrs er amgylchiadau personol anodd. Yn y dyfodol, hoffwn gyfuno fy niddordebau ym maes iechyd a gofal â pholisi iaith er mwyn defnyddio'r hyn yr wyf wedi'i ddysgu i wella gwasanaethau iechyd/gofal i gleifion."

**Sian Pritchard, Rhyl**
**Hyfforddwr/Aseswr Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Coleg Menai**



"Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn ieithoedd lleiafrifol ac roedd y cwrs yma yn gweddu i'r diddordeb yma i'r dim. Roedd dysgu am ieithoedd drwy meysydd gwahanol yn gymorth er mwyn dysgu am wahanol agweddau o ieithoedd lleiafrifol, o ran eu defnydd, hawl i'w defnyddio a'u heffaith ar y gymdeithas."

**Helen Williams, Bethesda**
**Gweinyddwr Datblygiad Proffesiynol**

### GOFYNION MYNEDIAD

Fel rheol, gofynnir am radd gyntaf 2.1 neu uwch mewn maes perthnasol a/neu brofiad proffesiynol perthnasol gyda thystiolaeth o astudiaeth ddiweddar. Caiff ymgeiswyr gyfweliad.

**CYSWLLT** Os hoffech drafod y cwrs yn fanylach, cysylltwch â:
Dr Rhian Siân Hodges (Cyfarwyddwr y Cwrs)
+44 (0) 1248 383034
r.s.hodges@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/gc

# LANGUAGE POLICY & PLANNING

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## MA / Postgraduate Diploma / Postgraduate Certificate

**Full-time: 1 year**
**Part-time: up to 48 months**



**www.bangor.ac.uk/so**





# WHY STUDY LANGUAGE POLICY AND PLANNING?

The number of bilingual and multilingual communities and workplaces is on the rise, and language planning is a field of growing importance. For this reason, there is an increased demand for individuals with the necessary knowledge and skills to put in place effective strategies and systems that promote linguistic equality.

As considering 'language' becomes a priority for many fields – including development, planning, education, health, IT and marketing – staff in a wide range of professions are required to develop an understanding of and skills in language planning. Furthermore, the introduction of the Welsh Language (Wales) Measure in 2011 has changed the legal framework concerning the use of Welsh, leading to increased demand for a bilingual and versatile workforce.

The MA in Language Policy and Planning offers an innovative and comprehensive exploration of a field that is of growing importance in Wales and beyond. The programme benefits from Bangor University's expertise in the fields of Social Sciences, Linguistics, Law, Business, Welsh and Healthcare Sciences, which will provide students with an understanding of the theoretical as well as applied questions of Language Planning.

## PROGRAMME AIMS

The programme aims to address the needs of individuals, communities and institutions for a more sophisticated and theoretically-informed understanding of language planning, equipping students with the necessary tools to implement successful systems in the workplace, community, education and the family unit.

The programme is offered at the following levels:

- MA (180 credits)
- Postgraduate Diploma (120 credits)
- Postgraduate Certificate (60 credits)

Exit points are available for each level.

At Masters and Diploma level, students will be expected to develop a firm understanding of research methods. The Masters programme will, through the dissertation, allow students to explore a particular aspect of language planning further and will act as a springboard to doctorate level studies if desired.

## BURSARIES

The School offers various bursaries towards the MA in Language Policy and Planning tuition fees. Additionally, the Coleg Cymraeg Cenedlaethol offers bursaries to full-time students who undertake the course through the medium of Welsh, where Welsh-medium modules are available. Bursaries will be awarded as a reduction of tuition fees.

## STUDENTS SEE LANGUAGE PLANNING IN PRACTICE



Students on the MA Language Policy and Planning degree had a unique insight into the subject of their studies thanks to an insightful trip to the Basque region of Northern Spain.

Along with Dr Rhian Hodges, Course Director, the students visited a number of key institutions which work to promote and nurture the Basque language. The aim of the trip was to introduce students to organisations that campaign on behalf of the language rights of Basque speakers, and to compare and contrast this with similar movements happening in Wales.








# MODULES

The combination of modules from Schools from across the University capitalises on Bangor's ability to explore language planning and its associated issues from theoretical and applied perspectives.

## CORE MODULES (Diploma and Masters)

*40 credits from:*

### The Research Process — 40 credits

Introduces the main varieties of both quantitative and qualitative research in the social sciences. Principles of research design and issues of data collection and analysis are studied.

### Research Methods in Education — 30 credits

Introduces students to quantitative and qualitative research in education and prepares students to undertake research for their dissertation.

### Quantitative Methods — 10 credits

Instructs students on how to use the SPSS computer programme for quantitative research work. By the end of the module, students will be expected to use the SPSS programme to undertake and analyse research work of an appropriate level.

*Together with:*

### Language Planning — 20 credits

Places language planning in its international context, by examining various examples of language planning in different countries. The module will include a thorough study of an area of language planning in Wales, concentrating on the socio-historical development of the Welsh language, the education system, and legislative development concerning Welsh.

### The Dissertation (MA only) — 60 credits

The dissertation is normally around 20,000 words in length. Students will receive full support of lecturing staff throughout the process, from the planning stage through to the final stages of writing up the final version. Every student is allocated a supervisor who will oversee and provide advice and guidance on research design, methodology, results, drafting and final dissertation submission.

## OPTIONAL MODULES

### Agweddau ar Ddwyieithrwydd* — 20 credits

Explores theoretical attitudes to bilingualism and multilingualism in relation to a range of situations, including the domestic context of Wales. The module will focus on the linguistic perspective, but will also consider ethnographic, educational, language planning and psycholinguistic attitudes towards bilingualism.

### Work-Based Learning — 20 credits

Encourages personal and professional development, using work-based problems to develop knowledge and skills appropriate to language planning in the workplace.

### Hanes y Gymraeg* — 20 credits

Investigates the history of the Welsh language and is suitable for those who have no previous knowledge of the topic. The module will examine the Welsh language's position in relation to other Celtic languages; provide a historical overview of the Welsh language, tracing the cultural, political and economic factors that influenced its history; and consider the relationship between spoken and written Welsh.

### Hawliau Ieithyddol* — 20 credits

Examines the field of language rights. It will explore the debate surrounding language rights in relation to the historic policy framework and the wider context of minority rights. There will be discussion about securing language rights for the Welsh language, which will draw on similar developments elsewhere in Europe.

*only available through the medium of Welsh

### Diversity & Human Rights — 20 credits

Provides students with the opportunity to examine key issues and debates concerning the growing claims by minorities and indigenous peoples for distinct language, territorial and other minority rights and recognition within nation-states. Debates and policies concerned with the management of cultural and ethnic diversity by the state will also be considered.

### Public Sector Management — 20 credits

Explores the complex and challenging world of public sector management, which has undergone major changes in recent years and has been at the forefront of developing innovative management practices in a demanding range of political and social contexts. This module engages the student in the issues of managing and developing effective, efficient and responsive public services.

### Law & Devolution in Wales & Europe — 20 credits

Examines the legal provisions relating to devolved legislative, administrative and judicial government in Wales, the United Kingdom and Europe, with particular reference to the National Assembly for Wales. It will assess the reasons for devolution in the several countries examined, the manner in which it has been achieved and the benefits and problems to which it has given rise.

### Current Issues in Bilingualism — 20 credits

Introduces bilingualism in both children and adults. It explores the controversies surrounding models of bilingual acquisition and adult language use and gives students an opportunity to conduct their own research projects either individually or as part of a team.



# CAREER PROSPECTS

The programme equips students to work in a variety of posts and fields – in the public, private and third sectors – including language officers, policy development, management and marketing. Students will also be prepared for doctoral level study in the broad field of language planning.

The programme is also suitable for practitioners and professionals already employed in the language planning field.

"The support I received from staff was incredible and it was this support that enabled me to see the degree right through to the end, despite some difficult personal circumstances. In the future, I hope to combine my interest in the health and care sector with language policy so that I can use what I've learnt to improve health and care services for patients."

**Sian Pritchard, Rhyl**
**Instructor/Assessor in Health & Social Care, Coleg Menai**



"I'm really interested in minority languages and the MA Language Policy and Planning suited that interest to a tee. Learning about languages through diverse disciplines really helped me understand the different aspects of minority languages such as their usage, rights to use them and their effect on society."

**Helen Williams, Bethesda**
**Professional Development Administrator**

## ENTRY REQUIREMENTS

We normally require a 2.1 undergraduate degree or above in a relevant subject and/or relevant professional experience with evidence of recent study. Candidates will be interviewed.

**CONTACT** If you would like to discuss the course in more detail, please contact:
Dr Rhian Siân Hodges (Course Director)
+44 (0) 1248 383034
r.s.hodges@bangor.ac.uk
www.bangor.ac.uk/so